Cyngor Cymuned Cerrigydrudion

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed Hydref 2019

Presennol - Ffuon Williams, Cadeirydd, John D Jones, Prys Ellis, Menai Hughes, Trystan Humphreys, Cyng Peter Lewis . Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau , Ieuan Jones, Maria Roberts, Guto Jones Einion Edwards.

Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion -Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12fed Awst 2019.

Materion yn Codi

[1] Yr Heddlu
Nid oedd yr heddlu'n bresennol.

[1.1] Strategaeth Hiraethog / Fferm Wynt Brenig
Nodwyd bod Ymddiriedolaeth Cerrig-y-Drudion wedi cwrdd â wedi trefnu i anfon cynrychiolydd i gwrdd â Chadwyn Clwyd i drafod manylion ceisiadau ayb.

[1.2]Coed Mynwent Ucha'r Eglwys/ Tocio'r Coed
Nodwyd bod trefniadau wedi eu gwneud i docio'r coed.

[1.3]Pont Pentrellyncymer
Cytunodd Einion Edwards gysylltu gyda'r clerc ynglŷn â'r gwaith atgyweirio

[1.4] Arwydd Stryd King / Yr Ysgol
[a] Y clerc i wneud ymholiad gyda Chyngor BS Conwy, pa bryd fydd 'r arwydd yn cael ei addasu ar gyfer ei osod gyferbyn a'r ysgol.
[b] Croesawyd y neges gan y Cyngor Sir ei bod yn bwriadu gosod llinellau melyn gyferbyn ac Erw Fair a Glascoed.

[1.5] Cais Helen Williams / Cae Llwyd
Eglurodd y clerc nad oedd Ms Helen Williams a diddordeb bellach i brynu darn o dir yn Cae Llwyd.

[1.7] Swydd y Clerc
Deallwyd nad oedd Mrs Rhian Ellis yn bwriadu ymgymryd y swydd, ond fod Mrs Carol Humphreys Tai Draw wedi datgan diddordeb. Y clerc i gysylltu gyda Mrs Humphreys.

[1.8] Coeden Sycamorwydden ger Maelor
Dywedodd y clerc iddo gysylltu gyda Mathew Bardsey Swyddog Coed y Cyngor Sir, a'i fod yn bwriadu galw i gael golwg ar y goeden.

[1.9] Gwteri / Y Feddygfa/ Ystâd Cae Llwyd
Nodwyd bod fod y gwteri wedi cael sylw.

Y brif Agenda

[2] Ceisiadau Cynllunio
[a] Codi Silwair ac iard dan do, Clust y Blaidd, Cerrig-y-Drudion
[b] Codi sied amaethyddol ar gyfer storio peiriannau a bwyd anifeiliaid, Trem Eryri, Cerrig-y-Drudion
[c] Codi sied amaethyddol ar gyfer byw a phorthiant, Hendre Tu Ucha Ffrithoedd, Pentrellyncymer.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r tri cais uchod.

[2.1] Adroddiad yr Archwiliwr Allanol
Nodwyd y canlynol
[a] Mae gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn o £15,792.00 sy'n 139% o gyfanswm y gwariant ac nid oes gan y Cyngor y grym i gadw cronfeydd gormodol wrth gefn oni bai ei bod yn cynilo i brynu rhywbeth penodol.
Penderfynwyd ystyried y gyllideb wrth osod y presept ar gyfer y flwyddyn nesaf.
[b] Cymeradawyd y Ffurflen Flynyddol i ddiwedd Mawrth 2019.

[2.2] Cynllun Chwarae'r Haf
Cyfeiriodd y clerc at adroddiad y cynllun, a nodwyd bod 39 o bresenoldeb dros gyfnod o 5 wythnos.

[2.3] Pwyllgor y Ganolfan
Cytunodd Menai Hughes a John D Jones I gynrychioli'r Cyngor Cymuned ar Bwyllgor y Ganolfan

[2.4] Darren Millar AC
Penderfynwyd cynnal cyfarfod ar nos Fercher er mwyn cwrdd aelod y cynulliad.

[2.5] Bryn Fawnog Cefn Brith
Deallwyd bod trafferthion dwr yn Brŷn Fawnog, y clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i geisio trefnu cyfarfod gyda'r perchennog.

Cadeirydd ____________________________